

Dyddiad cyhoeddi: 11 Ionawr 2022

## Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydyn ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n Polisi Rheoli Data a Gwybodaeth.

### Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:

*'Mewn ffordd debyg i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth hwn a wnaed i gwmni trenau South-Eastern Trains, sydd hefyd yn eiddo i'r Adran Ddrafnidiaeth, a fydddech cystal â darparu set o'r ffeiliau cyhoeddiadau awtomatig ar drenau.'*

### Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydyn ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:

Mae TrC yn meddu ar yr wybodaeth hon. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth hon wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 38 (Iechyd a Diogelwch) ac adran 12 (cost cydymffurfio yn fwy na'r terfyn addas) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000).

Mae adran 38 yn darparu eithriad rhag datgelu gwybodaeth pe byddai'n rhoi unigolyn mewn perygl. Nid yw'r eithriad o reidrwydd yn delio â materion y cyfeirir atynt yn gyffredinol fel materion iechyd a diogelwch, ac mae'n ystyried iechyd meddwl a chorfforol unrhyw unigolyn yn ogystal â'i ddiogelwch. Mae rhagor o wybodaeth am yr eithriad hwn ar gael [yma](#).

I ddefnyddio'r eithriad hwn, rhaid i awdurdod cyhoeddus ddangos bod cysylltiad achosol rhwng datgelu'r wybodaeth a rhoi unigolyn mewn perygl. Rhaid i'r awdurdod cyhoeddus hefyd ddangos y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o gael effaith andwyol ar iechyd meddwl, iechyd corfforol a diogelwch yr unigolyn ac nid mewn modd dibwys. Mae defnyddio'r eithriad hwn hefyd yn amodol ar brawf lles y cyhoedd.

Fel awdurdod cyhoeddus, mae TrC yn cydnabod bod angen bod yn agored ac yn dryloyw, yn ogystal â faint o ddi-ddordeb sydd gan y cyhoedd yng nghyswllt cyhoeddiadau TrC. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, mae'r risg i iechyd a diogelwch yn drech na hyn. Er enghraifft, gallai'r recordiad gael ei ddefnyddio mewn ffordd faleisus neu flinderus mewn gorsaf drenau i wrth-ddweud y cyhoeddiadau sy'n cael eu gwneud gan Reolwr yr Orsaf. Gallai hyn achosi i deithwyr ruthro i blatfform arall anghywir a mynd ar y trên anghywir. Byddai hyn yn achosi trallod sylweddol i unrhyw deithwyr fyddai'n cael eu twyllo fel hyn, a gallai hefyd beri i deithwyr beryglu eu diogelwch drwy ruthro i fynd ar drên anghywir ar blatfform arall mewn dryswch neu banig. Mae hyn, wrth gwrs, yn un enghraifft lle gallai ein cyhoeddiadau yn yr orsaf beryglu iechyd a diogelwch unigolyn pe bai'r recordiadau'n cael eu defnyddio mewn ffordd faleisus. Oherwydd hynny, mae TrC yn credu bod cysylltiad achosol clir rhwng peryglu iechyd a diogelwch a datgelu'r wybodaeth hon.

Ymhellach i'r esemptiad Adran 38, byddai'r gost o adalw'r wybodaeth hon hefyd yn fwy na'r terfyn addas ar gyfer prosesu cais, fel y nodir yn Adran 12 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae rhagor o wybodaeth am yr eithriad hwn ar gael [yma](#).

Mae adran 12 yn caniatáu i awdurdod cyhoeddus wrthod cais a fyddai'n costio mwy na £600 i'w brosesu, ar y sail ei fod yn cymryd 24 awr o amser staff ar y gyfradd safonol o £25 yr awr. Gall cyfrifo'r gost hon gynnwys:

- a. Penderfynu a oes gennym ni'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ;
- b. Dod o hyd i'r wybodaeth a chael gafael arni;
- c. Echdynnu'r wybodaeth.

Does dim gofyniad swyddogol i awdurdodau cyhoeddus gynnwys dadansoddiad o'r amcangyfrif o'r costau, dim ond amcangyfrif p'un ai a fyddai'n uwch na'r uchafswm. Mae ein hamcangyfrif yn cynnwys y gost o gael y recordiadau Cymraeg a Saesneg ar gyfer holl fflyd TrC, gan drafod datgelu'r recordiadau Cymraeg â'r cyflenwr penodedig (mae rhagor o wybodaeth ar gael isod) ac yna darparu mecanwaith i drosglwyddo'r recordiadau oherwydd maint y ffeiliau hyn. Yng nghanol pandemig, byddai cael gafael ar yr wybodaeth hon yn ailgyfeirio adnoddau arbenigol cyfyngedig a sylw staff oddi wrth eu swyddogaethau craidd, a allai fod yn cefnogi gweithgareddau hanfodol eraill yn ystod y cyfnod eithriadol hwn.

Comisiynodd TrC y cyhoeddiadau ar y trê'n gan ddefnyddio cyflenwr penodedig. Oherwydd hynny, mae goblygiadau hawlfraint i'w hystyried, gan fod breindaliadau ynghlwm wrth y recordiadau a ddarparwyd gan yr artistiaid llais, ar gyfer y recordiadau Cymraeg yn benodol. Cytunwyd ar hawl unigryw adeg caffael yn 2019 rhwng Gwasanaethau Rheilffyrdd TrC Cyfyngedig (Gwasanaethau Rheilffyrdd TrC gynt) ac fe wnaeth y cyflenwr gyfyngu ar y defnydd o'r cyhoeddiadau Cymraeg i Rheilffyrdd TrC Cyfyngedig yn unig. Er mwyn rhyddhau'r recordiadau, mae'n debygol y byddai angen i TrC negodi â'r cyflenwr gwreiddiol. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r defnydd o eithriadau adran 12 a 38, nid ydym ni wedi gofyn i'r cyflenwr ymchwilio i hyn.

Fel awdurdod cyhoeddus, mae TrC yn cydnabod bod angen bod yn agored ac yn dryloyw, yn ogystal â faint o ddiddordeb sydd gan y cyhoedd yng nghyswllt cyhoeddiadau TrC. Rydyn ni hefyd yn cydnabod ac yn gwirioneddol werthfawrogi'r brwdfrydedd sy'n cael ei ddangos dros y rheilffyrdd gan lawer o'r rheini sy'n gofyn am yr wybodaeth hon. Eto i gyd, fel mae'r ymateb hwn yn ei ddangos, mae ymateb i gais o'r fath yn amlochrog a chymhleth. Er ein bod yn nodi eich bod wedi gwneud cais tebyg i South-Eastern Trains, a bod y cais hwnnw wedi bod yn llwyddiannus, ni allwn roi sylwadau ar benderfyniadau a wnaed gan Gwmnïau Trê'n eraill i ddarparu'r wybodaeth hon. Mae'n bwysig nodi nad yr Adran Drafnidiaeth sy'n berchen ar TrC, ond Llywodraeth Cymru; ac mae llawer o enghreifftiau o geisiadau tebyg aflwyddiannus ar gael ar wefan 'whatdotheyknow' hefyd, yn enwedig yn ystod y pandemig.

Mae TrC yn ceisio bod yn ddefnyddiol wrth wrthod cais a wneir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth drwy gynnig awgrymiadau ar gyfer ffyrdd o fireinio neu ailgyfeirio cais. Fodd bynnag, fel unig berchennog yr wybodaeth o dan sylw ac yng ngoleuni ein defnydd o eithriad Adran 38, ni allwn ni gynnig awgrym arall yn yr achos hwn.

Cofion cynnes,

**Trafnidiaeth Cymru**

### **Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu [freedomofinformation@tfw.wales](mailto:freedomofinformation@tfw.wales). Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr hwn. Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gvhoeddus".